# Astudiaeth Achos

## Storfa feics

Ysgol Llywelyn

Y Rhyl, Sir Ddinbych

Ysgol Gynradd




Ffigur 1: Y storfa feics gyda chynrychiolwyr o Ysgol Llywelyn, Cyngor Sir Ddinbych a Sustrans. ©Sustrans

## Cefndir

Ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn y Rhyl yw Ysgol Llywelyn gyda rhyw 750 o ddisgyblion. Y Rhyl yw un o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALLC) ac mae tlodi trafnidiaeth yn gyffredin yma.

Cafodd y cynllun teithio llesol ei yrru gan hyrwyddwr ysgol angerddol sy'n frwd dros les disgyblion. Mae'r hyrwyddwr yn gweithio'n ddiflino i ddysgu sgiliau beicio i ddisgyblion, gan gredu y bydd y sgiliau hyn yn fanteisiol iddynt drwy eu hoes ac yn gwella'u siawns o gael swyddi yn y dyfodol.

## Elfennau allweddol

Datblygodd yr ysgol gynllun teithio llesol i drefnu digwyddiadau a mentrau strategol drwy gydol y flwyddyn, gyda'r nod o hybu'r disgyblion i gyfranogi mewn arferion teithio llesol. Profodd y cynllun hwn yn hanfodol i hyrwyddwr teithio llesol yr ysgol, gan y gallai nodi a blaenoriaethu camau gweithredu a fyddai'n manteisio i'r eithaf ar y cyllid oedd ar gael.

## Canlyniadau

Un flaenoriaeth yn y cynllun teithio llesol oedd cynnal a chadw stoc beics yr ysgol, er mwyn sicrhau bod cyfle i bob disgybl ddefnyddio beic drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer gweithgareddau hyfforddi beicio, gan ei fod yn gwarantu y gall disgyblion sydd heb feic eu hunain gymryd rhan o hyd, gan sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

Ar ben hynny, cafwyd gwell cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol, ac o ganlyniad llwyddwyd i sicrhau cyllid ar gyfer dwy storfa feiciau newydd, i ddiogelu'r beics rhag difrod dŵr a hyrwyddo teithio llesol ymhellach i'r disgyblion fel arfer cynaliadwy, gydol oes.



Ffigur 2: Storfa newydd i feics yr ysgol. ©Sustrans

## Cyflawniadau

Roedd y cynllun ysgolion teithio llesol yn allweddol wrth sicrhau cyllid ar gyfer cyfleusterau storio newydd a gwella'r gwaith o gynnal a chadw stoc beics yr ysgol.

Yn ogystal, bu'n fodd i hwyluso gweithgareddau teithio llesol bob tymor, trefnu cynnal a chadw'r beics yn rheolaidd, sefydlu grŵp i ddisgyblion sy'n frwd dros yr amgylchedd, a helpu i drefnu a hyrwyddo tri digwyddiad ar thema teithio llesol yn ystod y flwyddyn academaidd.

## Dyfyniad

**"Mae'n hwyl reidio beic yn yr ysgol. Does gen i ddim beic gartref i ymarfer".**

- Disgybl Ysgol Llywelyn

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government